# Profiant Annadleuol

## Gwneud ceisiadau proffesiynol ar-lein

**Crynodeb Gweithredol o ymatebion (Cymraeg)**

Cyhoeddwyd y papur ymgynghori ‘Profiant Annadleuol: Gwneud ceisiadau proffesiynol ar-lein’ ar 10 Awst 2020 a daeth i ben ar 10 Medi 2020. Gwahoddodd sylwadau gan ymarferwyr profiant arbenigol ar gynigion y Llywodraeth i’w wneud yn ofynnol i gyflwyno ceisiadau cyfreithwyr ac ymarferwyr eraill ar-lein ac nid ar bapur wrth ddyfarnu grantiau profiant neu lythyrau gweinyddu.

Derbyniwyd cyfanswm o 22 o ymatebion i’r papur ymgynghori. Anelwyd yr ymgynghoriad yn benodol at weithwyr proffesiynol arbenigol sy'n ymwneud â cheisiadau profiant ac roedd yr ymatebion yn adlewyrchu'r sylfaen broffesiynol hon. O'r rhain, roedd 11 o gyrff proffesiynol a rheoleiddio cyfreithiol a chyfrifeg (gan gynnwys tair Cymdeithas Gyfreithiol leol); 9 o gwmnïau cyfreithiol a 3 o ymarferwyr unigol.

Gwelwyd rhai themâu yn codi sawl gwaith yn yr ymatebion, a fydd yn rhan o’r broses o gynllunio a gweithredu'r gwasanaeth profiant yn y dyfodol, ac yn benodol, y broses ar-lein i gyflwyno ceisiadau. Yn fras, gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

- Mae defnyddwyr proffesiynol ar y cyfan yn gefnogol i system ar-lein ar gyfer ceisiadau profiant, ac yn cytuno mewn egwyddor gyda’r manteision sy’n cyd-fynd â hynny.

- Roedd mwy o amheuaeth o weld y gwasanaeth ar-lein yn dod yn orfodol ar hyn o bryd, ac yn benodol ar gyfer rhai mathau o geisiadau e.e. achosion cymhleth. Mewn rhai achosion, roedd yn ymddangos bod hyn yn seiliedig ar ganfyddiad a phroblemau ynysig wrth ddefnyddio'r system. Nid oedd eraill wedi profi problemau ac wedi croesawu'r system.

- Gwnaed awgrymiadau adeiladol ar ffyrdd i wella a datblygu'r system ymhellach, ac yn dilyn ymgysylltiad cynhyrchiol y mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi wedi’i gael gyda defnyddwyr proffesiynol.

- Roedd lleiafrif o ymatebwyr yn gwrthwynebu mewn egwyddor ac eisiau dychwelyd i'r hen system bapur.

- I'r gwrthwyneb, roedd defnyddwyr proffesiynol eraill eisiau i'r eithriadau sy'n weddill gael eu dileu ac i’r holl geisiadau profiant gael eu gwneud ar-lein.

Gellir dod o hyd i grynodeb a dadansoddiad manylach o'r ymatebion i bob un o'r 7 cwestiwn yn yr ymgynghoriad yn: https://www.gov.uk/government/consultations/non-contentious-probate-mandating-online-professional-applications.

Mae’r Llywodraeth yn ddiolchgar iawn i bawb gymerodd ran yn yr ymgynghoriad. Bydd y safbwyntiau yn helpu i lywio'r broses o weithredu'r polisi yn y dyfodol, a gwnaed rhai pwyntiau gwych ac adeiladol i helpu gyda’r datblygiadau tymor canolig a thymor hwy.

Mae’r Llywodraeth o’r farn bod y gwasanaeth bellach yn ddigon aeddfed, dibynadwy a chadarn i warantu symud at broses ar-lein orfodol i ddefnyddwyr proffesiynol wrth ddyfarnu profiant (ar wahân i rai eithriadau arbenigol sy’n cael eu diffinio). Yn hynny o beth, mae'n bwriadu gofyn i Lywydd yr Adran Deulu i wneud newidiadau priodol i'r Rheolau Profiant Annadleuol. Bydd amrywiaeth o geisiadau cymhleth ac ansafonol yn cael eu heithrio rhag bod yn orfodol i’w cyflwyno ar-lein.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd, ni fydd yn orfodol i ddyfarnu llythyrau gweinyddu ar-lein, yn unol â dymuniadau nifer o ymatebwyr y dylai’r broses o symud yn gyfan gwbl ar-lein gael ei gwneud yn raddol.

Mae nifer o'r ymatebion wedi tynnu sylw at faterion y bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a chyrff defnyddwyr proffesiynol cynrychioliadol i fynd i'r afael â hwy, yn y byr dymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Nodwedd o wasanaethau ar-lein Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, gan gynnwys profiant, yw’r adolygu, gwerthuso, mireinio ac ymgysylltu parhaus â defnyddwyr, a bydd hyn yn parhau yn y byr dymor, y tymor canolig a’r hirdymor. Nid yw hynny'n golygu bod angen unrhyw oedi o’i wneud yn orfodol, fodd bynnag; yn hytrach bydd yn ffurfio cam sylweddol yn y llwybr esblygiadol.

Fel y nodwyd yn gynharach, mae’n well gan nifer o ddefnyddwyr proffesiynol y ceisiadau papur traddodiadol, heb i'r mwyafrif roi cynnig ar y broses ar-lein. Pryder y Llywodraeth yw oni bai bod rhai prosesau gorfodol yn cael eu gweithredu, ac yn fuan iawn, ni fydd buddion llawn system ar-lein yn cael eu gwireddu, gan gynnwys yr arbedion a ragwelwyd yn rhaglen ddiwygio Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, a oedd yn rhan o’r buddsoddiad mewn technoleg sydd wedi galluogi i’r system ar-lein gael ei chyflwyno.

Y pryder yw, oni bai bod rhywfaint o orfodaeth yn cael ei chyflwyno, bydd cyfran y gweithwyr proffesiynol sy’n profi ac yn defnyddio'r system ar-lein yn parhau i symud yn araf. Mae hyn er gwaetha’r ffaith bod nifer o gwmnïau'n gweithio ar draws nifer o awdurdodaethau’r llys, gyda cheisiadau ar-lein Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yn cynyddu ar draws pob un ohonynt.